| **GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG** | |
|---|---|
| **130 - Rheoliadau’r Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019**<br>*Gosodwyd yn Senedd y DU: 5 Ebrill 2019* | |
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Na fydd |
| Gweithdrefn: | Negyddol arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | 24 Ebrill 2019 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |
| Y dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 2 Mai 2019 |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 15 |
| SICM o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Anhysbys |
| Gweithdrefn | Negyddol neu Gadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Sylwadau**

Cynigir gwneud y Rheoliadau hyn gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb ('Dim Cytundeb'), ni fyddai gan y DU gytundeb ar waith i barhau i gymryd rhan yn System Masnachu Allyriadau'r UE, a fyddai'n creu elfennau yn y ddeddfwriaeth bresennol na fyddai modd eu gweithredu. Diddymodd Rheoliadau Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/107) ddarpariaethau penodol a fydd yn peidio â bod yn gymwys ar y diwrnod ymadael a diwygiodd eraill i fynd i'r afael â'r elfennau na fyddai modd eu gweithredu.

Mae'r offeryn hwn yn gwneud rhagor o ddiwygiadau at yr un diben, yn dilyn diwygiadau i gyfraith yr UE sy'n llywodraethu System Masnachu Allyriadau'r UE (yn ymwneud yn bennaf â gwirio allyriadau, ac achredu

gwirwyr). Byddai'r diwygiadau hyn i gyfraith yr UE yn arwain at fwy o elfennau na fyddai modd eu gweithredu pe bai ymadawiad dim cytundeb. Esboniwyd yr angen am yr offeryn arall hwn yn y Memorandwm Esboniadol a oedd yn cyd-fynd ag OS 2019/107.

Yn dilyn y diwygiadau hyn i gyfraith yr UE, mae'r darpariaethau a wnaed gan OS 2019/107 yn dal i ddarparu rheoliadau monitro ac adrodd gweithredol i weithredwyr y DU, gan fod y diwygiadau i gyfraith yr UE yn cael eu gwneud yn bennaf i ofynion achredu a gwirio. Mae'r offeryn hwn yn cyfrif am y newidiadau hynny a bydd mewn grym cyn i weithredwyr y DU ddechrau'r prosesau achredu a gwirio. Ni fydd yr elfennau na fyddai modd eu gweithredu a gyflwynir gan y diwygiadau i gyfraith yr UE yn cael effaith berthnasol ar y gweithredwyr ar y diwrnod ymadael.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 11 Ebrill 2019, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys Memorandwm Esboniadol y Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.